

**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y [Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) ar [Gynllun Llywodraeth Cymru i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros](#)**

**This response was submitted to the [Health and Social Care Committee](#) consultation on the [Welsh Government's plan for transforming and modernising planned care and reducing waiting lists](#)**

**PCWL 30**

**Ymateb gan: | Response from: Bwrdd Cyngor Iechyd Cymuned | Board of Community Health Councils**

---





# Cynllun Llywodraeth Cymru i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros: ymateb i'r ymgyngoriad

Mae'r Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned (y Bwrdd) yn falch o gyflwyno'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad ar ran y Cyngorau Iechyd Cymuned (CICau) yng Nghymru.

Mae'r CICau yn gyrrff annibynnol sy'n adlewyrchu barn ac yn cynrychioli buddiannau pobl sy'n byw yng Nghymru yn eu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae'r CICau'n annog ac yn cynorthwyo pobl i gael llais wrth ddylunio, cynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG.

Ceir 7 CIC yng Nghymru. Mae pob un yn cynnwys aelodau gwirfoddol sy'n byw yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu, gyda chymorth tîm bach o staff cyflogedig. Mae pob CIC yn:

- Ymweld yn rheolaidd â gwasanaethau iechyd i glywed gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau (a'r bobl sy'n darparu gofal) i ddylanwadu ar y newidiadau a all wneud gwahaniaeth mawr
- Estyn allan yn fwy eang at bobl mewn cymunedau lleol i ddarparu gwybodaeth a chasglu barnau a phrofiadau o wasanaethau'r GIG

Mae'r CICau'n defnyddio'r hyn maent yn ei glywed i wirio sut mae gwasanaethau'n perfformio'n gyffredinol ac i sicrhau bod y GIG yn cymryd camau i wella pethau, lle bo angen

- Ymwneud â rheolwyr gwasanaethau iechyd pan fyddant yn ystyried newid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, fel bod pobl a chymunedau yn cael dweud eu dweud o'r dechrau
- Darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion sy'n rhad ac am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol, i helpu pobl i godi eu pryderon am ofal a thriniaeth y GIG.

Mae'r Bwrdd CICau (y Bwrdd) yn bodoli i gefnogi, cynorthwyo, cynghori a rheoli perfformiad y CICau. Mae'n cynrychioli barnau cyfunol y CICau ledled Cymru.

Nid oes gan y CICau yng Nghymru rôl statudol o ran adlewyrchu barn a chynrychioli buddiannau pobl a all fod angen neu sydd angen defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Yn yr un modd nad yw anghenion iechyd a gofal unigol pobl yn dod i ben ar ffiniau sefydliadau, nid yw barn a phrofiadau pobl o'r gwasanaethau iechyd a gofal maent yn eu derbyn ychwaith. Felly, mae'r CICau'n aml yn clywed yr hyn mae pobl yn ei feddwl am eu gwasanaethau iechyd a gofal yn gyffredinol, ac nid dim ond y rhai a ddarperir gan neu a ariennir gan y GIG.

Mae'r CICau wedi defnyddio'r hyn maent wedi'i glywed gan bobl ar hyd a lled Cymru, a chan ddarparwyr y GIG, am wasanaethau iechyd a gofal i lywio'r ymateb cyfunol canlynol i gwestiynau'r ymgynghoriad.

## **A fydd y cynllun yn ddigonol i fynd i'r afael â'r ôl-groniadau mewn gofal arferol sydd wedi cronni yn ystod y pandemig, a lleihau amseroedd aros hir.**

Mae'r CICau'n croesawu'r ffocws clir yn y cynllun ar fynd i'r afael â'r pethau y mae pobl wedi dweud wrthym sydd bwysicaf iddynt pan fyddant yn aros am ddiagnosis neu driniaeth. Mae'n cydnabod ac yn ymateb i'r prif faterion a glywn gan bobl sy'n byw ym mhob rhan o

Gymru sy'n aros yn hirach nag y byddai unrhyw un yn dymuno am ddiagnosis neu driniaeth.

Mae'n nodi – mewn termau lefel uchel – yr hyn fydd yn cael ei wneud (a sut, mewn llawer o feysydd ond nid pob un), i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'n gosod rhai targedau allweddol, fel bod gan y cyhoedd ryw syniad pa mor gyflym y gallant ddisgwyl i bethau wella.

Mae'n cydnabod yr elfennau allweddol y bydd eu hangen i gyflawni'r hyn sy'n rhaglen uchelgeisiol ac, er mwyn bod yn llwyddiannus, bydd yn rhaid mynd i'r afael â rhai materion systemig hirsefydlog sydd wedi'u gwaethygu, ond nad ydynt wedi'u hachosi, gan y pandemig COVID-19.

Mae'n rhaid i'r 'trawsnewid', y mae'n nodi ei fod yn angenrheidiol i ddod â rhestrau aros i lawr a chreu system iechyd a gofal cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, gael ei gyflawni gyda phobl a chymunedau trwy gyd-gynhyrchu. Bydd sut y bydd yn gwneud hyn yn allweddol i lwyddiant y cynllun.

Ond:

- Mae'r CICau'n cwestiynu a yw'r cynllun yn cydnabod yn ddigonol y realiti noeth o ba mor fregus yw gweithlu presennol y GIG - gan gynnwys y sector gofal sylfaenol, lle mae'r GIG yn dibynnu cymaint ar feddygon, deintyddion, ac ati., sy'n gweithredu fel contractwyr annibynnol.

Mae'r cynllun yn pwyso'n drwm ar y sylfaen fregus hon. Mae'r CICau'n gweld mwy a mwy o bractisau sydd wedi'u hystyried yn flaenorol yn Feddygon Teulu a darparwyr deintyddol "sefydlog" yn rhoi'r gorau i'w contractau GIG, oherwydd problemau'n ymwneud â recriwtio a chadw. Nid oes unrhyw wasanaeth yn ddiogel rhag dirwyn i ben wrth i broblemau'n ymwneud â 'lludded' a recriwtio barhau.

- Mae'r CICau'n cwestiynu a yw'r cynllun ei hun yn rhoi digon o sylw i rôl y system gofal cymdeithasol, o ran ei alluogi i gael ei gyflawni'n llwyddiannus.

Mae'r CICau hefyd yn meddwl y bydd yn haws barnu a fydd y cynllun yn ddigon i fynd i'r afael â'r ôl-groniadau mewn gofal pan fydd gwybodaeth fanylach ar gael gan gynllunwyr a darparwyr gofal iechyd.

Mae nodi 'beth, pryd a sut' y bydd yr uchelgeisiau lefel uchel a ddisgrifir yn y cynllun yn cael eu troi'n gamau gweithredu clir, cyd-drefnedig a chydweithredol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol – drwy bethau fel cynllun cyflawni'r gweithlu – yn allweddol.

Heb hyn, nid yw'n glir y bydd uchelgais y cynllun yn ddim mwy na dyhead.

### **A yw'r cynllun yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng mynd i'r afael â'r ôl-groniad presennol, a chreu system iechyd a gofal cymdeithasol fwy gwydn a chynaliadwy ar gyfer y tymor hir?**

Mae'r CICau'n croesawu'r ffocws clir yn y cynllun ar gymryd camau gweithredu uniongyrchol a thymor hir, megis comisiynu mwy o driniaeth gan ddarparwyr nad ydynt yn rhan o'r GIG, i ddod â rhestrau aros i lawr yn gyflymach wrth ddatblygu'r gallu i ddylunio trefniadau mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol a'u rhoi ar waith.

Ond mae prif ffocws y cynllun ar adeiladu system gofal iechyd mwy gwydn a chynaliadwy – gan gyfeirio at ddarparwyr gofal cymdeithasol ac awdurdodau lleol fel partneriaid, ond heb gyfeirio atynt / eu cynnwys fel cyfranwyr gweithredol at system iechyd a gofal cymdeithasol gryfach a mwy integredig.

## **A yw'r cynllun yn canolbwyntio'n ddigonol ar y canlynol:**

- **Sicrhau bod pobl ag anghenion iechyd yn cyflwyno eu hunain;**
- **Cefnogi pobl sy'n aros am gyfnod hir am driniaeth, rheoli eu disgwyliadau, a'u paratoi ar gyfer cael y gofal y maent yn aros amdano, gan gynnwys hunanreoli â chymorth;**
- **Diwallu anghenion y rhai sydd â'r anghenion clinigol mwyaf, a'r rhai sydd wedi bod yn aros am amser hir;**
- **Gwella canlyniadau cleifion a'u profiad o wasanaethau'r GIG?**

Mae'r CICau'n croesawu'r gydnabyddiaeth yn y cynllun o bwysigrwydd cynnal strategaeth gyfathrebu gref, barhaus sy'n dod â chyfathrebiadau lleol a chenedlaethol ynghyd, i helpu i sicrhau bod gan bobl ddigon o'r math cywir o wybodaeth, pryd a sut y mae ei hangen arnynt, i'w grymuso i ddod ymlaen pan fyddant yn canfod angen iechyd.

Mae'r cynllun hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau, unwaith y bydd pobl yn ceisio cymorth ar ôl canfod angen iechyd, y gallant gael y cymorth hwnnw trwy eu meddyg, deintydd neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y negeseuon a realiti profiad pobl yn cyd-fynd. Mae'r CICau'n parhau i glywed, bron pob dydd, gan bobl na allant gael gweld meddyg neu ddeintydd pan fydd angen un arnynt – i ormod o bobl, mae'n dal i deimlo ymhell o'r math o fynediad yr anelir ato drwy'r ymrwymiad mynediad at feddyg teulu newydd.

Rhaid i fonitro effeithiol, gweithredu ac adrodd clir i'r cyhoedd ar berfformiad yn y mathau hyn o feysydd, fod yn rhan allweddol o'r strategaeth gyfathrebu ehangach.

Mae'r CICau'n croesawu'r ffocws cryf yn y cynllun ar gefnogi pobl sy'n aros am amser hir am driniaeth, rheoli eu disgwyliadau, a'u paratoi ar gyfer derbyn y gofal maent yn aros amdano, gan gynnwys hunanreoli â chymorth - gan gynnwys drwy gydweithio â'r 3<sup>ydd</sup> sector i ddarparu cymorth, cyngor a chefnogaeth.

Mae'r CICau'n cydnabod hefyd y rhan allweddol y gall datblygiad parhaus technoleg ddigidol ei chwarae wrth gyflawni hyn - ac yn cydnabod na all technoleg ddigidol fod yr unig ateb, os nad oes unrhyw un i gael ei adael ar ôl.

Mae'r CICau'n awyddus i weld y gydnabyddiaeth hon yn y cynllun yn cael ei throi'n weithredu ymarferol a chynhwysfawr mewn meysydd fel modelau ariannu 3<sup>ydd</sup> sector cynaliadwy a datblygu trefniadau sy'n ddigon hyblyg i gefnogi anghenion cymorth, cyngor a chefnogaeth unigol pobl. Mae'r CICau'n dal i glywed yn rhy aml gan bobl eu bod yn cael cynnig 'un ateb sy'n addas i bawb'.

Mae'r cynllun yn rhoi ffocws clir ar flaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen clinigol mwyaf trwy ystod o gamau, gan gynnwys dilysu rhestrau clinigol yn well, atgyfeirio gofal sylfaenol wedi'i fireinio yn dilyn diagnosis cynnar ac atgyfeiriadau o well ansawdd i gynorthwyo gyda brysbennu cychwynnol.

Mae'r cynllun yn glir ynglŷn â'r ystod o bethau a fydd yn gwella canlyniadau cleifion, gan gynnwys diagnosis cynharach, ymagweddau cydgynhyrchiol at ofal unigol, gwell llwybrau gofal a thriniaeth gyflymach.

Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd casglu a defnyddio atborth cleifion i ysgogi datblygiadau a chymau gweithredu pellach, lle bo angen.

Mae'r CICau am i hyn fod yn rhan o system mesur, monitro ac adrodd perfformiad cliriach, cryfach a mwy ystyrlon, sy'n helpu i reoli

perfformiad ar bob lefel ac yn ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau iechyd a gofal, o ran y pethau sydd bwysicaf i bobl am eu gofal a'u triniaeth.

### **A yw'r cynllun:**

- **yn darparu arweinyddiaeth ddigonol a chyfeiriad cenedlaethol i ysgogi cydymdrech, cydweithio a rhannu arloesedd ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan (gan gynnwys meysydd iechyd meddwl, gofal sylfaenol a gofal cymunedol)?**
- **yn rhoi digon o eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ysgogi trawsnewid, yn enwedig wrth ddatblygu gwasanaethau triniaeth a diagnostig newydd a/neu ranbarthol a moderneiddio gwasanaethau gofal a gynlluniwyd?**

Mae'r cynllun ei hun yn nodi cyfeiriad cenedlaethol clir a syml i ymateb i'r sialensiau uniongyrchol a thymor hirach o ran lleihau amseroedd aros.

Mae'n llawer llai clir yn y cynllun ei hun sut y bydd y cyfeiriad a'r bwriad hwn i gydweithio ar bob lefel yn cael eu llywio'n ymarferol.

Mae'r CICau'n gwybod o'u gweithgareddau beunyddiol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, bod llawer o wahanol grwpiau a rhwydweithiau cynllunio, rhaglen a phrosiect eisoes ar waith i ysgogi dylunio, datblygu a gwelliant yn y GIG yng Nghymru. Mae rhai o'r rhain yn drefniadau parhaol ac mae rhai yn grwpiau 'gorchwyl a gorffen'.

Nid yw bob amser yn glir i'r CICau (neu i eraill) sut maen nhw i gyd yn cyd-fynd â'i gilydd, pwy sy'n gyfrifol am wneud beth a phryd, a phwy sy'n atebol i bwy ac am beth yn gyffredinol. Yn ogystal â hyn,



mae'r rhan y bydd Gweithrediaeth newydd y GIG yn ei chwarae yn hyn i gyd yn dal i gael ei datblygu.

Felly, oni bai bod y rhai sy'n gweithio yn y GIG ei hun yn gwybod yn iawn pwy sy'n gyfrifol am wneud beth a phryd, nid oes llawer o obaith y bydd pobl a chymunedau'n llywio ac yn dylanwadu ar ei ffordd o feddwl yn effeithiol.

Mae'r CICau'n croesawu'r ymrwymiad i wybodaeth am berfformiad mwy rheolaidd, e.e., trwy ddangosfwrdd perfformiad wythnosol. Mae'n bwysig bod y trefniadau cyflawni manylach sy'n sail i'r cynllun yn nodi'n glir iawn yn gyffredinol:

- yr ysgogiadau sydd ar waith i annog cydymdrech, cydweithredu ac arloesi ar draws y GIG, a chanlyniadau peidio â gwneud hynny
- sut y bydd cydweithio yn sicrhau darpariaeth gwasanaeth teg sy'n ymateb i'r sialensiau penodol sy'n wynebu pobl sy'n byw ym mhob rhan o Gymru, e.e., gwledigrwydd, amddifadedd, ac ati.
- pwy sy'n gyfrifol am wneud beth, sut (lle bo'n briodol) a phryd
- sut a phryd y dylid adrodd ar gynnydd, ac wrth bwy
- pwy fydd yn gweithredu os nad yw pethau'n mynd yn ôl y bwriad.

Os yw'r rhai sy'n ymwneud â gofal iechyd i gael eu gwerthfawrogi'n briodol a'u cydnabod am y ffordd maent yn cydweithio ac yn arloesi, yna rhaid cydnabod hyn mewn trefniadau mesur a rheoli perfformiad ar bob lefel.

### **A yw'r targedau a'r amserlenni yn y cynllun yn ddigon manwl, mesuradwy, realistig a chyraeddadwy?**

Mae'r CICau'n croesawu'r ymrwymionau clir iawn yn y cynllun ynglŷn â'r hyn y gall pobl ei ddisgwyl ac erbyn pryd, o ran lleihau'r rhestrau aros yn gyffredinol (er bod y rhain yn hirach nag y byddai unrhyw un

yn ei ddymuno). Dylai'r dull syml hwn, ynghyd ag adroddiadau rheolaidd, amlach ar gynnydd a pherfformiad, olygu y gall pobl fesur yn hawdd a yw'r ymrwymïadau lefel uchel hyn yn cael eu cyflawni.

Mae'r CICau'n nodi hefyd bod y cynllun yn datgan yn glir ei fod wedi'i ddatblygu gyda gwasanaethau'r GIG, a bod hyder o fewn y GIG bod modd cyflawni'r cynllun.

Fodd bynnag, o ystyried pryderon y CICau ynghylch gwytnwch y gweithlu a'i allu i ysgogi ac ymateb i 'drawsnewid' parhaus ar bob lefel, ni allwn asesu'n glir pa mor realistig a chyraeddadwy yw'r cynllun heb weld y cynlluniau cyflawni manylach a fydd yn ei ategu.

### **A yw'n ddigon clir pa arbenigeddau fydd yn cael eu blaenoriaethu / cynnwys yn y targedau?**

Mae'r cynllun yn cyfeirio at rai agweddau ar wasanaethau penodol, lle mae'r CICau'n clywed pryderon gan bobl yn rheolaidd ac yn gyson am amseroedd aros. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, gwasanaethau plant, gwasanaethau iechyd meddwl, gofal canser, ac ati. Mae'n canolbwyntio hefyd ar yr agweddau allweddol o fewn meysydd gwasanaeth y mae pobl yn poeni amdanynt megis diagnosteg. Nid yw'n canolbwyntio'n fanylach ar yr ystod gyfan o arbenigeddau, gan gynnwys y rhai y clywn amdanynt amlaf, megis orthopaedeg.

Mae'r CICau'n disgwyl i'r targedau lefel uchel a nodir yn y cynllun fod yn berthnasol i amseroedd aros ar gyfer holl wasanaethau'r GIG – i bawb ar restr aros ar gyfer unrhyw arbenigedd GIG. Mae angen rhoi sicrwydd i bobl sy'n byw yng Nghymru y bydd popeth y gellir ei wneud yn rhesymol yn cael ei wneud, i wneud eu harhosiad mor fyr ag y bo modd – rhaid i'r cynllun gyflawni hyn.

Rhaid i'r ystod o gynlluniau cyflawni manylach nodi'n glir sut y bydd y sialensiau gwahanol yn cael eu hymdrin ar draws arbenigeddau ac ardaloedd daearyddol – boed hynny er enghraifft yn gynllun gweithlu,

cynllun canser neu'n Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) corff y GIG.

### **A ydych yn rhagweld unrhyw amrywiad ar draws byrddau iechyd o ran cyflawni'r targedau fesul arbenigedd?**

Mae'r CICau am i'r cynlluniau manylach sy'n cefnogi'r cyflawni i nodi'n glir sut a phryd y bydd yr amrywiad presennol ar draws byrddau iechyd yn cael ei ymdrin, trwy ddull cydweithredol a ffyrdd newydd / gwahanol o weithio sy'n diwallu anghenion pobl a chymunedau.

### **A oes digon o gyllid refeniw a chyfalaf ar gael i gyflawni'r cynllun, gan gynnwys, buddsoddi, lle bo angen, mewn seilwaith ac ystadau a'u hehangu er mwyn sicrhau bod capasiti'r gwasanaethau yn bodloni'r galw?**

Nid yw'r cynllun yn rhoi unrhyw fanylion am y dadansoddiad o'r cyllid sydd ar gael (gan gynnwys symiau ychwanegol), rhwng refeniw a chyfalaf.

Mae'n bwysig bod y ffordd y mae cyllid yn cael ei ddarparu yn cefnogi camau gweithredu tymor byr i fynd i'r afael yn deg ag ôl-groniadau amseroedd aros, yn ogystal â datblygu gwasanaethau ar gyfer y tymor hirach mewn ffordd gynaliadwy i bobl sy'n byw ym mhob rhan o Gymru.

### **A yw'r cynllun yn ddigon clir ynglŷn â sut y dylai cyllid ychwanegol ar gyfer trawsnewid gofal a gynlluniwyd gael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol, a sut y caiff defnydd ac effaith y cyllid eu holrhain a sut yr adroddir ar hynny?**

Mae'r cynllun yn canolbwyntio, ar lefel uchel iawn, ar y pethau allweddol y bydd angen i'r GIG ganolbwyntio arnynt i drawsnewid y ffordd y darperir gofal a gynlluniwyd yn y ffyrdd sydd bwysicaf i bobl.

Mae'r CICau'n disgwyl y bydd y model ariannu sydd ar waith i gefnogi cyflawni yn rhoi digon o ffocws, fel y gall cynlluniau cyflawni

manylach y GIG ymateb yn hyblyg yn y ffordd sy'n diwallu anghenion eu poblogaeth orau o ystyried pethau fel daearyddiaeth a demograffeg.

## **A yw'r cynllun yn mynd i'r afael yn ddigonol â phwysau ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cadw, recriwtio, a chefnogi staff i weithio'n hyblyg, meithrin eu sgiliau a gwella o drawma'r pandemig?**

Mae'r cynllun yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â'r materion allweddol sy'n effeithio ar y gweithlu iechyd a gofal presennol. Mae cyflwyno'r cyflog byw gwirioneddol ym maes gofal cymdeithasol i'w groesawu, ond nid oes gan y CICau wybodaeth fanwl ddigonol am y sector hwn, ar hyn o bryd, i nodi beth arall y gallai fod ei angen i'w roi ar sylfaen fwy cynaliadwy.

Yn ddyddiol, mae'r CICau'n gweld yr effaith ar ofal y GIG o ganlyniad i brinder staff (rhai ohonynt yn absennol ers tro a rhai'n ymwneud ag effaith uniongyrchol COVID-19), a'r effaith ar ansawdd gofal pan fydd y rhai sy'n ei ddarparu wedi blino'n lân yn gorfforol ac yn emosiynol.

Mae'r CICau'n croesawu'r ymrwymiad i gydweithio â'r gweithlu iechyd a gofal, i ddatblygu cynlluniau manylach i fynd i'r afael â'r pwysau ar y gweithlu. Dylai hyn helpu i roi sicrwydd bod y cynlluniau manylach hynny yn ymateb i'r agweddau allweddol o safbwynt y gweithlu ym mhob rhan o Gymru.

Yn yr un modd, mae'r CICau am weld barn a phrofiadau cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn llywio ac yn dylanwadu ar flaenoriaethau cynllun cyflawni'r gweithlu.

## **A oes digon o eglurder ynglŷn â sut y bydd offer a data digidol yn cael eu datblygu a'u defnyddio i ysgogi darpariaeth gwasanaethau a rheoli amseroedd aros yn fwy effeithlon?**

Mae'r CICau'n croesawu'r ymrwymïadau yn y cynllun i ddefnyddio offer a data digidol, i ysgogi cyflawni gwasanaeth a rheoli amseroedd aros yn fwy effeithlon – gan alluogi pobl i deimlo bod ganddynt fwy o reolaeth dros eu gofal iechyd, trwy allu cael mynediad at gyngor, cefnogaeth a gwybodaeth am eu gofal a'u triniaeth.

Mae'r CICau hefyd yn croesawu'r ymrwymïad clir yn y cynllun i leihau allgáu digidol. Mae'n hanfodol bod unrhyw ddatblygiadau yn cydnabod y bydd rhai pobl o hyd na ellir diwallu eu hanghenion unigol trwy eu defnydd uniongyrchol o dechnoleg ddigidol i gael mynediad at ofal iechyd.

Rhaid i'r ffocws ar ddatblygu gwasanaethau gynnwys ystyriaeth bob amser o sut mae angen i bethau weithio i'r rhai nad ydynt yn defnyddio technoleg.

Mae angen i gynllunio manwl ar gyfer trawsnewid digidol gydnabod ac ymateb i effaith digideiddio ar gapasiti – er y gall mynediad digidol haws arbed capasiti a rheoli galw'n well yn aml, gall hefyd gynyddu'r galw.

Mae hyn wedi bod yn wir gyda systemau fel eConsult ac AskmyGP, lle mae galw cynyddol wedi arwain at ostyngiad mewn argaeledd yn ystod oriau gweithredu'r systemau mewn llawer o achosion.

## **Cyfathrebu ac ymgysylltu**

Mae'r CICau'n croesawu'r ymrwymïad yn y cynllun i ymgysylltu a chyfathrebu'n gryf ac yn gyd-drefnedig ar lefelau lleol a chenedlaethol – a chydabod yr angen brys i symud ymlaen â chynlluniau clir, cydweithredol a chyd-drefnedig, i adfer a thrawsnewid gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Ond dim ond os yw'r rhai sy'n gyfrifol am ddylunio a chynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol yn cyflawni'r ymrwymiad i ymgysylltu â phobl a chymunedau a'u cynnwys wrth ddylunio a datblygu eu gwasanaethau gofal iechyd y gellir cyflawni hyn yn effeithiol.

Rhaid i hyn fod yn fwy na dim ond cyfleu pam a sut mae pethau'n mynd i newid. Mae'n ymwneud â chydweithio â phobl a chymunedau, i ganfod y ffordd y dylid darparu gwasanaethau yn y dyfodol – cydnabod ac ymateb i'r pethau sydd bwysicaf i bobl ynghylch sut y darperir eu gwasanaethau.